# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 30 Tachwedd a 7 Rhagfyr 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

11 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch adfer yn llawn hawliau pensiwn cyn weithwyr ASW? (WAQ48674) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.***

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae'r Prif Weinidog a minnau'n cyfathrebu'n rheolaidd â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ran holl aelodau cynllun pensiwn ASW.

Ysgrifennodd y Prif Weinidog at John Hutton, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, ddiwethaf ar 1 Tachwedd a chododd nifer o gwestiynau ynglŷn â'r cynllun cymorth ariannol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynglŷn â cholledion swyddi Cyllid a Threthi EM yng Nghymru? (WAQ48653)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Mae Llywodraeth San Steffan yn llwyr ymwybodol ein bod yn ceisio sicrhau bod cynifer â phosibl o swyddi sector cyhoeddus yn trosglwyddo i Gymru yn unol ag argymhellion adolygiad Lyons. Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw trosglwyddo swyddi i ardaloedd Amcan 1 Cymru, gyda'r swyddfa ym Merthyr eisoes ar agor, a'n cynlluniau ar gyfer Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth.

O ran cyhoeddiad Cyllid a Threthi EM, mae'n bwysig cadw mewn cof mai dechrau ymarferiad ymgynghori yw hwn. Nid oes colledion swyddi wedi cael eu cyhoeddi.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad o ragolygon swyddi a swyddi gwirioneddol a grëwyd cyn belled gan bartneriaethau nad ydynt yn rhai lleol, a ariannwyd gan gronfeydd strwythurol Ewrop, a thros ardal Amcan 1 yn ei chyfanrwydd? (WAQ48673)

**Andrew Davies:** Mae'r tabl sydd ynghlwm yn dangos y swyddi 'a ragwelwyd' a'r ffigurau diweddaraf am swyddi 'gwirioneddol' a grëwyd gan brosiectau Amcan 1 partneriaethau nad ydynt yn rhai lleol, a hynny yn ôl ardaloedd partneriaethau lleol.

**Data rhagolygon a swyddi gwirioneddol(1) o brosiectau gan bartneriaethau nad ydynt yn rhai lleol, yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol**

| **Ardal Awdurdod Lleol** | **Swyddi a grëwyd(2)** | |
|---|---|---|
| | **Rhagwelwyd(3)** | **Gwirioneddol (4)** |
| Ynys Môn | 2,800 | 1,700 |
| Blaenau Gwent | 2,800 | 1,800 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3,300 | 1,900 |
| Caerffili | 3,500 | 2,800 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,800 | 3,300 |
| Ceredigion | 3,100 | 2,000 |
| Conwy | 3,100 | 1,400 |
| Sir Ddinbych | 2,900 | 1,600 |
| Gwynedd | 3,500 | 2,400 |
| Merthyr Tudful | 2,600 | 800 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3,000 | 1,900 |

| | | |
|---|---|---|
| Sir Benfro | 3,600 | 2,900 |
| Rhondda Cynon Taf | 3,900 | 3,600 |
| Abertawe | 4,500 | 4,900 |
| Tor-faen | 2,900 | 1,900 |
| **Cyfanswm** | **49,200** | **35,100** |

**Ffynhonnell:** System Rheoli Cronfeydd Ewropeaidd, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, 31/10/06
(1) Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf.
(2) Mae diweddariad gwerthuso canol tymor Amcan 1 yn awgrymu y dylai data cyfun gael ei drin â gofal gan fod y ffigurau'n cynnwys elfen o gyfrif dwbl.
(3) Y ffigurau a ragwelwyd yw'r hyn y mae'r prosiectau yn amcangyfrif y byddant yn ei gyflawni.
(4) Y ffigurau gwirioneddol yw'r hyn y mae'r prosiectau wedi'i gyflawni hyd yma.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae 'cynlluniau cerdded i'r ysgol' yn cael eu hyrwyddo yng Nghymru? (WAQ48679)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn cefnogi ac yn annog cynlluniau cerdded i'r ysgol drwy fuddsoddi mewn cynlluniau mawr Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Hyd yma, mae ein cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol wedi dyrannu £22 miliwn i awdurdodau lleol ar draws Cymru. Mae'r llwybrau diogel a chynaliadwy hyn wedi darparu'r seilwaith i awdurdodau lleol i hyrwyddo cynlluniau fel wythnos cerdded i'r ysgol a bysiau cerdded.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pa gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i Gymru yn ei Blodau ar gyfer 2007? (WAQ48694)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £10,000 o gyllid drwy Croeso Cymru, sy'n rhan o'm hadran i, ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-07. Nid oes penderfyniadau pellach wedi cael eu gwneud am y cymorth cyllido y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu i gynllun Cymru yn ei Blodau yn y dyfodol. Materion i benderfynu arnynt drwy'r prosesau cynllunio busnes parhaus yw'r rhain.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiant cydrannau cerbydau modur yng Nghymru? (WAQ48711)

**Andrew Davies:** Yn sicr, mae globaleiddio wedi creu cyfnod llawn her i'r sector. Fodd bynnag, mae Cymru wedi cael ei bendithio â sector cydrannau sylweddol nad yw'n dibynnu ar y farchnad geir yn unig. Mae Tîm Cymru yn dal i gyfatebu cryfderau Cymru ag anghenion y sector. Fel rhan allweddol o'r pecyn cymorth hwn, mae rhaglen Accelerate Cymru sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth y Cynulliad wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at helpu cwmnïau o Gymru yn y sector hwn i gystadlu'n gryfach.

Mewn mannau eraill, mae Busnes Rhyngwladol Cymru, sy'n rhan o'm hadran i, yn gweithio'n ddiwyd gyda gweithgynhyrchwyr offer gwreiddiol allweddol i hyrwyddo effeithiolrwydd Cymru fel cyflenwr cydrannau allweddol i'r diwydiant modurol.

**Ann Jones:** Pa gynnydd a wnaed o ran lleihau nifer y bobl a leddir mewn damweiniau ffordd sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru er 2003? (WAQ48713)

**Andrew Davies:** Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos y gyfran o yrwyr a fu mewn damweiniau ffordd a roddodd brawf anadl positif neu a wrthododd y prawf. Yr oedd y gyfran yn 2.4 y cant o'r holl yrwyr yn 2003 a 2.3 y cant o yrwyr yn 2005.

Gan mai dim ond chwech o bob 10 gyrrwr a fu mewn damwain a gafodd y prawf bob blwyddyn, nid yw hyn yn ganllaw defnyddiol i'r cysylltiad rhwng yfed alcohol a damweiniau traffig. Oherwydd hynny, o

2005 ymlaen, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau casglu data am farn yr heddlu am ba ffactorau oedd wedi cyfrannu at y ddamwain yn eu tyb nhw. Mae'r 'ffactorau cyfrannu' hyn yn cynnwys asesu pa un a oedd alcohol wedi amharu ar y gyrrwr, neu'r gyrwyr, a fu mewn damwain.

Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd y wybodaeth hon yn rhoi inni ddangosydd newid dibynadwy dros amser. Fodd bynnag, mae'r ffigurau rhagarweiniol am 2005 yn awgrymu, mewn un o bob 10 damwain angheuol, bod gyrwyr yr oedd alcohol wedi amharu arnynt yn rhan o'r ddamwain (15 allan o 154 o ddamweiniau angheuol). Mewn un o bob pedair damwain yn fras lle lladdwyd cerddwr, yr oedd alcohol wedi amharu ar y cerddwr (saith allan o 29 o ddamweiniau angheuol).

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddenu mwy o swyddi i economi Cymru? (WAQ48714)

**Andrew Davies:** Mae hon yn flaenoriaeth allweddol yn ein hagenda datblygu economaidd. Mae gweithredu'r agenda'n llwyddiannus yn galluogi Cymru i gynnal cyfradd gyflogaeth sydd gryn dipyn uwchlaw ei chyfartaledd hanesyddol, gyda'r lefel wedi cynyddu dros 120,000 ers dechrau'r Cynulliad. Mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 10 y cant ers datganoli, o'i gymharu â chynnydd o 7 y cant drwy'r DU gyfan dros yr un cyfnod.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu gwasanaethau rheilffordd ymhellach yng Nghymru? (WAQ48718)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cyllido rhaglen o fuddsoddiad yn y rheilffyrdd ar draws Cymru gyda'r pedwar consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol yn unol â dogfen strategol Llywodraeth y Cynulliad am strategaeth drafnidiaeth Cymru. Mae'r ddogfen honno yn y cyfnod ymgynghori ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth yn grwpio holl ddatblygiadau rheilffordd y dyfodol o dan dair elfen o gynaliadwyedd: cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y diwydiannau creadigol yng Nghymru? (WAQ48719)

**Andrew Davies:** Mae creu Busnes Creadigol Cymru ac ailbenodi'r panel busnes creadigol—dwy elfen a fydd yn rhoi mwy o ffocws a chydlyniad—ynghyd â chreu'r asiantaeth ffilm ac ailstrwythuro Comisiwn Sgrin Cymru, yn golygu bod Cymru mewn sefyllfa dda i adeiladu ar lwyddiant y sector a rhoi'r strategaeth ar gyfer y diwydiannau creadigol ar waith. Dros y blynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi gweld manteision economaidd uniongyrchol ffilmio yng Nghymru yn cynyddu o £8 miliwn yn 2003-04 i ychydig dros £18 miliwn y llynedd. Yr wyf yn hyderus y bydd ein dull o weithredu ar y cyd yn gweld y camau breision hyn ymlaen yn cael eu hailadrodd mewn mannau eraill yn y sector.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw ohebiaeth a dderbyniodd ynghylch y broses dendro ar gyfer prosiect Blue Stone? (WAQ48734)

**Andrew Davies:** Ysgrifenasoch ataf ar 28 Tachwedd 2005 a 3 Ionawr 2006 am y mater hwn. Nid oes gennyf ddim pellach i'w ychwanegu at fy atebion ichi. (Gweler AD/01653/05 ac AD/00001/06)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw ohebiaeth ynghylch cymorth ariannol ar gyfer prosiect Bluestone? (WAQ48735)

**Andrew Davies:** Mae cryn lawer o wybodaeth ariannol wedi'i chynnwys yn ffeiliau Bluestone yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r wybodaeth hon yn ymdrin â diwydrwydd dyladwy yn ariannol,

gwerthusiad masnachol a gwerthusiad nifer ymwelwyr, a dadansoddiad o'r costau adeiladau a gyflawnwyd gan Cyllid Cymru a Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r papurau hyn yn cwmpasu cymorth rhanbarthol dewisol, twristiaeth adran 4 a grant cymorth eiddo.

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau gan fusnesau lleol a/neu drigolion lleol ynghylch y gwaith ffordd ar yr A470 ym Mlaenau Ffestiniog ac, os felly, a wnaiff roi eu manylion? (WAQ48736)

**Andrew Davies:** Hyd yma, nid oes unrhyw sylwadau wedi dod i law oddi wrth fusnesau lleol a/neu drigolion lleol ynghylch y gwaith i osod wyneb newydd ar yr A470 rhwng Manod a Blaenau Ffestiniog.

**Nick Bourne:** Pa mor hir y mae'r gwaith ffordd ar yr A470 ym Mlaenau Ffestiniog i fod i bara? (WAQ48738)

**Andrew Davies:** Dechreuodd y gwaith ffordd sydd ar y gweill ar yr A470 rhwng Manod a Blaenau Ffestiniog ddydd Llun 20 Tachwedd ac mae i fod i bara pedair wythnos, gan ddod i ben cyn cyfnod y Nadolig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Elin Jones:** Pa gynlluniau newydd sydd gan y Gweinidog i ddelio ag anweithgarwch economaidd yng Ngheredigion? (WAQ48667)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae fframwaith gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r cyfraddau gweithgarwch economaidd wedi'i nodi yn 'Cymru: Gwlad Well', 'Cymru: Economi yn Ffynnu', a'r cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth i Gymru 2005. Ceir mesurau ategol yn rhan o agenda o fudd-dal i waith Llywodraeth y DU, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu teilwrio i ddiwallu anghenion pobl a chymunedau ar draws Cymru.

Ymysg y cynlluniau sydd wedi dechrau'n ddiweddar yng Ngheredigion mae'r rhaglen Llwybrau at Waith, sy'n canolbwyntio ar helpu pobl sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth a chymryd y cam i ddechrau gweithio. Hefyd, mae ein prosiect camu i fyny yn rhoi mynediad at hyfforddiant am ddim i bobl sydd mewn gwaith, i'w helpu i wella eu sgiliau (hyd at NVQ Lefel 3), gan ei gwneud yn llai tebygol drwy hynny y byddant yn dod yn anweithgar yn economaidd.

**Alun Ffred Jones:** Pa gynlluniau newydd sydd gan y Gweinidog i ddelio ag anweithgarwch economaidd yng Nghaernarfon? (WAQ48668)

**Jane Davidson:** Mae fframwaith gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu cyfraddau gweithgarwch economaidd wedi'i nodi yn 'Cymru: Gwlad Well', 'Cymru: Economi yn Ffynnu', a'r cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth i Gymru 2005. Ceir mesurau ategol yn rhan o agenda o fudd-dal i waith Llywodraeth y DU, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu teilwrio i ddiwallu anghenion pobl a chymunedau ar draws Cymru.

Yr ydym yn ymdrechu'n barhaus i ddatblygu'r cymorth i bobl sy'n anweithgar yn economaidd, ac un o'r prif gynlluniau newydd fydd yn cael eu cyflwyno yng Nghaernarfon yn ystod 2007 yw'r rhaglen Llwybrau at Waith, sy'n canolbwyntio ar helpu pobl sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth a chymryd y cam i ddechrau gweithio. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn

gweithio’n agos gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau ar ffurf y cam pellach hwn o’r rhaglen, a’r sectorau preifat a gwirfoddol fydd yn arwain wrth iddo gael ei roi ar waith.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am statws cyfredol cynigion i uno Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru a Choleg Garddwriaeth Cymru yn Llaneurgain, a nodi pa ran a chwaraeodd hi mewn unrhyw drafodaethau cyn belled? (WAQ48670)

**Jane Davidson:** Cydnabu Corff Llywodraethu Coleg Garddwriaeth Cymru yr angen i uno â sefydliad mwy a chyda hynny mewn golwg cafodd ei gynnwys mewn astudiaeth dichonoldeb uno a gomisiynwyd ac a gyllidwyd gan Dysgu ac Addysgu Cymru. Cyflenwyd yr astudiaeth gan ymgynghorydd annibynnol ym mis Mawrth 2006. Yr oedd nodau ac amcanion yr adroddiad yn cynnwys:

- archwilio manteision addysgol yr uno i fyfyrwyr ôl-16;
- effaith yr uno ar ddarparwyr amgen;
- manteision ariannol uno a hyfywedd y sefydliadau arfaethedig ar ôl uno.

Awgrymai canlyniad yr adolygiad hwn mai uno â Choleg Glannau Dyfrdwy sy’n cynnig y cyfle gorau i ddysgwyr.

Fodd bynnag, dywedodd y coleg garddwriaeth y byddai’n well ganddo uno ag Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru ac mae’r corff llywodraethu wrthi ar hyn o bryd yn paratoi i gyflwyno cynnig amgen yn ffurfiol o blaid uno â NEWI yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2007.

Hyd nes y bydd y cynnig uno ffurfiol wedi cael ei gyflwyno a bod yr adran wedi cytuno iddo, bydd y swyddfa ranbarthol yn parhau i archwilio’r holl opsiynau uno er mwyn sicrhau darpariaeth addysg bellach gynhwysfawr i Sir y Fflint.

Hyd yma, ni fu’n briodol i’r Gweinidogion gyfrannu’n uniongyrchol mewn unrhyw ffordd at y trafodaethau.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Elin Jones:** Pa ystyriaeth y mae’r Gweinidog wedi’i rhoi i ymateb y Cyngor Cefn Gwlad i’r asesiad priodol o 24ain Rownd trwyddedu olew a nwy? (WAQ48690)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad bŵer cyffredinol i sicrhau bod pob gweithgaredd yn cydymffurfio â’r gyfarwyddeb cynefinoedd. Yn yr achos hwn, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant sydd â’r pŵer hwnnw. Deallaf fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi gwneud sylwadau am yr asesiad priodol, a bod yr Adran Masnach a Diwydiant wrthi ar hyn o bryd yn sicrhau bod sylw llawn yn cael ei roi i’r effeithiau amgylcheddol posibl.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson:** A yw’r Gweinidog yn bwriadu newid gweithdrefnau ar gyfer atebolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru dros gyllid y GIG? (WAQ48680)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Nac ydwyf.

**Jenny Randerson:** A yw’r Gweinidog yn bwriadu cymryd cyfrifoldeb personol dros ddyledion y GIG fel y cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr ei bwriad i wneud? (WAQ48681)

**Brian Gibbons:** Mae gan sefydliadau GIG gyfrifoldeb statudol i sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn eu cyllid ac yr wyf yn dal byrddau’n atebol am sicrhau hyn. Os na all sefydliad ymdopi ar yr arian y mae’n ei gael, bydd angen iddo fenthyca cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y gall barhau i anrhydeddu ei ymrwymiadau ariannol parhaus. I sicrhau bod y ddisgyblaeth o gadw o fewn cyllidebau’n cael ei phwysleisio, mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i unrhyw arian a fenthycir gael ei ad-dalu.

Ar ddisgresiwn Llywodraeth y Cynulliad y penderfynir ar amseriad unrhyw ad-daliad, a byddwn yn sicrhau nad yw gofal i gleifion yn cael ei beryglu pan fydd sefydliadau GIG yn ad-dalu dyledion i Lywodraeth y Cynulliad.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddi ffisiotherapyddion iau sydd ar gael yng Nghymru? (WAQ48684)

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y ffisiotherapyddion a raddiodd yng Nghymru eleni sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi yn faes ffisiotherapi? (WAQ48642)

**Brian Gibbons:** Ym mis Mai 2006, yr oedd cyfanswm o 224.56 o swyddi cyfwerth ag amser llawn i ffisiotherapyddion iau yng Nghymru. O’r rhain, dim ond 76 o swyddi y gwyddid eu bod yn wag ac ar gael felly i ffisiotherapyddion oedd newydd gymhwyso. Yr oedd hyn yn is nag y byddid wedi disgwyl efallai ar sail y duedd dros y blynyddoedd blaenorol, sy’n dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, o 67 ym 1999 i 90 yn 2004. Yn 2005, fodd bynnag, cododd y nifer o ffisiotherapyddion oedd newydd gymhwyso yn sylweddol i 117. Y lefel hon o gyflogaeth, wedi’i chyfuno â sefydlogrwydd y gweithlu o ganlyniad i’r ‘Agenda ar gyfer Newid’, y mae rheolwyr ffisiotherapi Cymru gyfan yn cyfeirio ati fel y prif reswm pam fod llai o swyddi ar gael yn gynnar yn 2006.

Graddiodd 117 o ffisiotherapyddion ym mis Gorffennaf 2006, ac mae’r wybodaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod llai na 40 o’r graddedigion wedi methu â sicrhau swydd gyntaf addas.

Mae rheolwyr ffisiotherapi Cymru gyfan yn parhau i adolygu’r sefyllfa ar draws Cymru’n rheolaidd ac mae gweithdai rhanbarthol yn cael eu cynllunio yn gefn i ddulliau arloesol o ymdrin â recriwtio.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau mai'r gyfarwyddeb ar wasanaethau epilepsi yw'r cynllun gweithredu mewn ymateb i’r archwiliad ar farwolaethau epilepsi? (WAQ48695)

**Brian Gibbons:** Bydd y cyfarwyddebau datblygu a chomisiynu ar gyfer epilepsi yn cynnwys nifer o gamau allweddol i helpu i wella iechyd ac ansawdd bywyd pobl sy’n byw gydag epilepsi. Ymgymerwyd â’r gwaith mewn ymateb i nifer o faterion yn cynnwys y pwysau cynyddol ar wasanaethau a’r archwiliad clinigol cenedlaethol o farwolaethau yr oedd epilepsi yn ffactor ynddynt. Cyn ‘Cynllun Oes’, cyfeirid at y gwaith hwn fel cynllun polisi a gweithredu, ond mae wedi cael ei ddatblygu’n gyfarwyddebau comisiynu sy’n adlewyrchu’r agenda gynyddol i fynd i’r afael â chyflyrau cronig yng Nghymru.

**Helen Mary Jones:** Sut mae’r Gweinidog yn sicrhau bod cleifion sy’n arddangos symptomau ME yn gallu cael eu gweld yng Nghymru yn hytrach nag yn gorfod mynychu clinigau y tu allan i Gymru? (WAQ48696)

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn datblygu fframwaith integredig ar gyfer clefydau cronig a fydd yn help i sicrhau dull effeithiol a chyson ar draws Cymru o reoli cyflyrau cronig, yn cynnwys syndrom blinder cronig ac enseffalomyelitis myalgig. Un nodwedd allweddol fydd bod gwasanaethau yn cael eu darparu ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymdeithasol gan dimau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol

integredig. Bydd unigolion yn cael help i ddeall mwy am eu cyflwr, a rhoddir hyder cynyddol iddynt i reoli eu cyflwr eu hunain lle bo hynny'n briodol. Mae angen comisiynu a datblygu gwasanaethau amlddisgyblaethol arbenigol, gyda llwybrau gofal integredig yn gefn iddynt, er mwyn cynnal a gofalu am bobl sydd â chyflyrau cronig yn effeithiol. Bydd angen atgyfnerthu hyn ymhellach hefyd drwy bartneriaethau gyda'r sector gwirfoddol a gofalwyr.

Mae'r Cynulliad a'r Adran Iechyd wedi comisiynu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol i ddatblygu canllawiau clinigol i ddiagnosio a rheoli CFS ac ME. Mae'r cyngor hwn i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2007.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan NICE ar:
http://www.nice.org.uk/page.aspx?o=guidelines.inprogress.cfsme

**David Lloyd:** Ar gyfer ardal pob BILl lleol, a wnaiff y Gweinidog nodi nifer y bobl ifanc a ddaliodd glefydau a drosglwyddir trwy ryw yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ48697)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r system i arolygu heintiadau a drosglwyddir trwy ryw yn darparu gwybodaeth fesul ardal bwrdd iechyd lleol. Hefyd, gan mai ym mis Ebrill 2003 y sefydlwyd BILlau yng Nghymru, nid oes ystadegau cymaradwy ar gael am y cyfnod er 1999.

Er nad oes gwybodaeth ar gael ychwaith am ystod oedran cleifion sy'n mynd i apwyntiadau meddygaeth genhedlol-wrinol, mae'r tabl isod yn dangos y nifer o gleifion newydd a chyfanswm y cleifion a gadwodd apwyntiadau meddygaeth genhedlol-wrinol fesul rhanbarth o Gymru er 2000-01.

**Cleifion meddygaeth genhedlol-wrinol a gadwodd apwyntiadau fesul rhanbarth GIG**

| Blwyddyn | | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sefydliad | | | | | | | |
| Rhanbarth Gogledd Cymru | Cleifion newydd | 5,122 | 5,824 | 6,297 | 6,864 | 7,532 | 8,258 |
| | Cyfanswm cleifion | 12,281 | 12,841 | 13,878 | 14,617 | 15,738 | 17,088 |
| Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru | Cleifion newydd | 5,855 | 6,339 | 6,584 | 5,857 | 5,495 | 5,573 |
| | Cyfanswm cleifion | 12,492 | 13,702 | 13,806 | 12,945 | 12,062 | 10,882 |
| Rhanbarth De-ddwyrain Cymru | Cleifion newydd | 13,443 | 14,217 | 16,226 | 16,559 | 17,750 | 18,244 |
| | Cyfanswm cleifion | 33,348 | 33,362 | 35,508 | 35,795 | 34,752 | 31,756 |

Mae sylw'n cael ei roi ar hyn o bryd i fater arolygu heintiadau a drosglwyddir trwy ryw er mwyn darparu data mwy amserol a fydd yn golygu bod modd dadansoddi'r wybodaeth i lefel BILl.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw ohebiaeth a dderbyniodd ynghylch cynnig Bwrdd Iechyd Lleol Powys ar 12 Medi i ail-gyflunio gwasanaethau ysbytai ym Mhowys? (WAQ48728)

**Brian Gibbons:** Mae dros 1,000 o eitemau o ohebiaeth wedi dod i law oddi wrth aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr etholedig am y cynnig.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio bracytherapi i drin canser y brostad yng Nghymru? (WAQ48737)

**Brian Gibbons**: Mae brachytherapi yn un math o driniaeth ar gyfer canser cyfyngedig ar y brostad, a Chomisiwn Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am ei chomisiynu gan ei bod yn cael ei hystyried yn wasanaeth arbenigol. Fodd bynnag, nid yw'r driniaeth hon yn cael ei chomisiynu i gleifion newydd yn ystod y

flwyddyn ariannol gyfredol, gan nad yw'r comisiwn wedi ei nodi fel blaenoriaeth fuddsoddi yn ystod 2006-07. Mae mathau eraill o driniaeth, fel radiotherapi a llawdriniaeth, a gomisiynir gan y byrddau iechyd lleol, yn golygu nad oes mynediad at driniaeth effeithiol ar gyfer canser y brostad yn cael ei wadu i unrhyw glaf.

O ran comisiynu gwasanaethau brachytherapi yn y dyfodol, mae Comisiwn Iechyd Cymru yn trafod gyda byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre y potensial i ddatblygu dull cydgysylltiedig o gomisiynu gwasanaethau ar gyfer canser cyfyngedig ar y brostad.

**Ann Jones:** Faint o bobl a) fu'n aros am dros 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol yn 1999; a b) faint sydd ar hyn o bryd yn aros dros 18 mis am driniaeth fel cleifion mewnol yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych? (WAQ48778)

**Brian Gibbons:** Ar 31 Hydref 1999, yr oedd 56 o gleifion wedi aros dros 18 mis am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych. Ar 31 Hydref 2006, nid oedd unrhyw gleifion wedi aros dros 12 mis am driniaeth fel claf mewnol/achos dydd, a dim ond 207 oedd wedi aros dros wyth mis, sef y targed sydd i gael ei gyrraedd erbyn 31 Mawrth 2007.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun hawl-i-brynu yng Nghymru? (WAQ48699)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Er 1980, mae tenantiaid diogel awdurdodau lleol a rhai landlordiaid cymdeithasol eraill wedi bod â'r hawl i brynu eu cartref o dan y cynllun hawl-i-brynu.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi gwaith y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru? (WAQ48700)

**Edwina Hart:** Ers datganoli'r gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ym mis Tachwedd 2004, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu polisïau, cynlluniau a chyllid priodol gyda'r nod o amddiffyn pawb, nid dim ond rhag tân ond hefyd rhag pob argyfwng arall.

Cyhoeddwyd y fframwaith tân ac achub cenedlaethol i Gymru ym mis Mawrth 2005 a dyma ein strategaeth o ran cyflenwi'r gwasanaeth. Mae'n nodi'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y gwasanaeth a pha gefnogaeth y gall yntau yn ei dro ei ddisgwyl gennym ni. Mae'n ofynnol yn ôl Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, o fewn dwy flynedd i'r fframwaith gael ei gyhoeddi, yn datgan i ba raddau y mae'r awdurdodau tân ac achub yn gweithredu yn unol â'r fframwaith. Yr ydym yn y broses o lunio'r adroddiad.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddynion sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref yng Nghymru? (WAQ48701)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu strategaeth genedlaethol i ymdrin â thrais yn y cartref yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn annog pob asiantaeth i weithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth ac amddiffyniad i bob un sy'n dioddef trais yn y cartref, yn cynnwys dynion sy'n dioddef trais. Mae cymorth yn cael ei ddatblygu i ddynion sy'n dioddef trais, yn cynnwys Project Dyn yng Nghaerdydd a thŷ diogel gerllaw'r Drenewydd.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn y cartref yng Nghymru? (WAQ48702)

**Edwina Hart:** Mae cynnydd da'n cael ei wneud o ran rhoi ein strategaeth genedlaethol ar drais yn y cartref ar waith ac yr wyf yn rhoi adroddiadau diweddaru rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Partneriaethau diogelwch cymunedol sy'n gyfrifol am gyd-drefnu'r ffordd y caiff y strategaeth ei rhoi ar waith, ac mae pob yn ohonynt yn cael cyllid ar gyfer cyd-drefnydd trais yn y cartref.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol yng Nghymru? (WAQ48703)

**Edwina Hart:** Yr oedd y pedwerydd adroddiad blynyddol am gamddefnyddio sylweddau, a ddarperais i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 21 Medi, yn cynnwys adroddiad diweddaru am ein polisïau i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Mae hwn i'w weld ar y fewnrwyd.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn Wrecsam? (WAQ48704)

**Edwina Hart:** Er 1999, mae mwy na £2 filiwn wedi cael ei ddyfarnu i'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn Wrecsam i helpu i ostwng lefelau troseddu a chamddefnyddio sylweddau. Er 2002, mae £1.5 miliwn wedi cael ei ddyfarnu drwy'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol ar gyfer adfywio cymunedol, yn cynnwys prosiectau fel siop un stop Lles y Glowyr yn Llai a grŵp chwarae cyn ysgol Owrtyn. Hefyd, mae dros £2.1 miliwn wedi cael ei ddyfarnu o'r gronfa adfywio ffisegol er 2002 i brosiectau sy'n cynnwys y rhaglen fawr i adnewyddu ac adfer adeiladau allweddol yng nghanol Cefn Mawr, ac ailgodi canolfan adnoddau cymunedol aml-ddefnydd Gwersyllt. Yn olaf, bydd dros £8 miliwn ers dechrau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn 2001 wedi cael ei ddyfarnu i helpu i ddatblygu'r rhaglen yn ardal Wrecsam hyd at 2008.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun effeithlonrwydd ynni cartref Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ48705)

**Edwina Hart:** Mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi helpu dros 64,000 o aelwydydd bregus er 2000. Dros flynyddoedd 2006-08, mae £5 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gael i helpu aelwydydd pensiynwyr ac mae hynny'n dod â'r gyllideb lawn ar gyfer y cynllun i £19.6 miliwn bob blwyddyn. Bydd y cynnydd diweddar yn y lefel o grant sydd ar gael dan y cynllun yn sicrhau bod aelwydydd yn cael yr ystod lawn o fesurau effeithlonrwydd gwresogi ac ynni heb fawr ddim cost, neu ddim cost o gwbl, iddynt hwy.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ynghylch adfywio De Caerdydd a Phenarth? (WAQ48706)

**Edwina Hart:** Mae fy swyddogion wedi ymgynghori â'i swyddogion ef ynglŷn â nifer o geisiadau am gyllid o dan gylch ymgeisio terfynol y gronfa adfywio ffisegol. Yr oedd y trafodaethau hyn yn cynnwys ceisiadau'n ymwneud â Clifton Street a Heol y Bontfaen yng Nghaerdydd, a chanol tref Penarth. Bydd canlyniad y ceisiadau hyn yn hysbys yn fuan.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru er 2003? (WAQ48709)

**Edwina Hart:** Dangosodd arolwg byw yng Nghymru fod tua 130,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2004, sy'n cynrychioli tua 11 y cant o aelwydydd Cymru. Ein hamcangyfrif blaenorol, a gyhoeddwyd yn yr ymrwymiad tlodi tanwydd i Gymru, oedd bod 220,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd ym 1998. Seiliwyd yr amcangyfrif hwn ar dderbyn y procsi 'bod yn gymwys dan gynllun effeithlonrwydd ynni cartref Llywodraeth y Cynulliad' fel dangosydd tlodi tanwydd. Awgrymodd dadansoddiad o'r arolwg blaenorol (Arolwg Cyflwr Tai Cymru 1998), y seiliwyd yr amcangyfrif procsi hwn arno, y gallai'r ffigur fod wedi bod yn nes at 360,000, neu 31 y cant o aelwydydd Cymru.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella cyfleoedd bywyd plant o deuluoedd incwm-isel yn Sir Ddinbych? (WAQ48710)

**Edwina Hart:** Mae cynyddu incwm teuluoedd yn elfen bwysig o'n strategaeth i ddileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ehangu rôl partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cynyddu incwm i'r eithaf ac yr wyf yn ddiweddar wedi cymeradwyo cefnogaeth i brosiect peilot i gynyddu cyfradd fuddsoddi talebau'r gronfa ymddiriedolaeth plant mewn undebau credyd. Yn Sir Ddinbych, mae'r rhaglen ragorol, 'Getting Paid Right', wedi cynhyrchu dros £6 miliwn mewn budd-daliadau nad oeddent yn cael eu hawlio yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn unig ac yr wyf yn awyddus i annog lledaenu arferion da o'r fath ar draws Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr rhwydwaith swyddfeydd post Cymru? (WAQ48721)

**Edwina Hart:** Nid yw swyddfeydd post yn gyfrifoldeb sydd wedi cael ei ddatganoli. Deallaf y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori'n fuan ynghylch ei chynigion ar gyfer dyfodol y rhwydwaith swyddfeydd post yng Nghymru.

Yr wyf fi a'm swyddogion yn dal i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn y broses benderfynu yn Whitehall.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu cyfle cyfartal yng Nghymru? (WAQ48676)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl Cymru heb ystyried hil, oed, ffydd/cred, anabledd, rhyw na thueddfryd rhywiol. Yr ydym yn gweithio i sefydlu cydraddoldeb yn elfen brif ffrwd ym mhob maes polisi. Yr ydym wedi nodi ein hymrwymiad a'n llwybr gweithredu er mwyn prif ffrydio yn ein strategaeth ar brif ffrydio cydraddoldeb.

Mae gennym hefyd gynllun cydraddoldeb hil sy'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Yr ydym wedi datblygu cynllun cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad i bobl anabl, a gaiff ei lansio ar 14 Rhagfyr 2006. Yr ydym hefyd yn gweithio tuag at gynhyrchu cynllun cydraddoldeb rhyw, a gaiff ei lansio ym mis Mawrth 2007. O fis Mawrth 2008, bwriadwn fod â chynllun a fydd yn ymdrin â phob maes cydraddoldeb.